

EMBARGOED 00:01 25/07/19

25 Gorffennaf 2018

**'Gofal da, ond mynediad anghyson at wasanaethau
camddefnyddio sylweddau ledled Cymru' dywed
arolygiaethau**

Heddiw, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd yn dilyn eu hadolygiad diweddar o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ymwneud ag amrediad o ddibyniaethau ar gyffuriau ac alcohol.

Ar y cyfan, canfu AGIC ac AGC fod pobl yn derbyn gofal da gan staff gofalgar a brwdfrydig ond bod y mynediad at wasanaethau yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig ac yn gyffredinol anghyson ledled Cymru. Yn benodol, roedd pobl yn ei chael hi'n anodd cael y driniaeth yr oedd ei hangen arnynt gan wasanaethau rhagnodi amnewidion (e.e. methadon), dadwenwyno, adsefydlu a chwrsela oherwydd bod amseroedd aros hir a phrinder capasiti mewn gwasanaethau.

Yn ogystal, roedd yr adolygiad yn nodi gwendidau o ran goruchwylio a rheoleiddio yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau. O ganlyniad, efallai na fydd Byrddau Cynllunio Ardal yn gallu nodi, monitro a gweithredu'n gyflym ar themâu a materion sy'n dod i'r amlwg ar draws yr holl wasanaethau er mwyn amddiffyn diogelwch pobl. Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal ailystyried y ffordd maent yn ceisio sicrwydd ynghylch perfformiad gwasanaethau.

Yn siomedig, er bod peth cynnydd wedi'i wneud, mae llawer o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn debyg i'r rheiny y gwnaeth AGIC eu nodi yn ei hadroddiad blaenorol ar gamddefnyddio sylweddau yn [2012](#).

Mae AGIC ac AGC wedi gwneud 34 o argymhellion i'r Byrddau Cynllunio Ardal a/neu Llywodraeth Cymru eu hystyried.

Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn cynnwys y canlynol:

Canfyddiadau cadarnhaol:

- Roedd pobl yn gadarnhaol ynglŷn â'r gofal roeddent wedi'i dderbyn gan wasanaethau
- Mae'r staff yn amlwg yn gweithio'n galed ac yn frwdfrydig ynghylch darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Yn gyffredinol, roedd pobl yn gadarnhaol ynglŷn â chymorth parhaus a manteision y rhaglenni adsefydlu ac ôl-ofal
- Gellir gweld enghreifftiau o arfer da mewn rhai rhanbarthau ond mae angen cysondeb a chydweithredu pellach ledled Cymru

Prif feysydd i'w gwella:

- Mae angen mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gofal eilaidd, gofal sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol ac, yn arbennig, gwasanaethau iechyd meddwl fel y gellir diwallu anghenion pobl mewn modd holistaidd. Dywedodd pobl eu bod yn aml yn ei chael hi'n anodd cael cymorth gyda'u problemau iechyd meddwl oherwydd eu bod yn camddefnyddio sylweddau, a gwnaethant ddisgrifio sut roeddent yn cael eu symud yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl
- Mae angen adolygiad o amseroedd aros a llwybrau gofal i sicrhau y gall pobl gael mynediad cyflym at y driniaeth sydd ei hangen arnynt o ran gwasanaethau rhagnodi amnewidion, dadwenwyno, adsefydlu a chwrsela
- Mae angen rhagor o hyblygrwydd mewn gwasanaethau yn ogystal ag allgymorth mewn cymunedau, gyda chymorth y tu allan i oriau ac ar benwythnosau er mwyn galluogi pobl i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar adegau o argyfwng pan fyddant mewn perygl uwch o ailwaelu ac o orddosio
- Mae angen codi ymwybyddiaeth ledled Cymru am gamddefnyddio sylweddau ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol er mwyn

cyflawni'r canlynol:

- Gwella gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael fel bod pobl yn gwybod ble i gael cymorth
- Lleihau'r stigma y mae pobl yn ei brofi wrth ryngweithio â gweithwyr proffesiynol a chynyddu dealltwriaeth

Meddai Dr Kate Chamberlain, Prif Weithredwr AGIC:

"Mae ein hadroddiad yn cydnabod gwaith caled ac ymrwymiad y staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Er mai cadarnhaol yw'r ffaith fod gan gleifion brofiadau da o ofal mewn gwasanaethau, ni allant bob amser gael y math cywir o driniaeth sydd ei angen arnynt mewn modd amserol. Mae'n siomedig fod llawer o'r problemau y gwnaethom eu nodi yn ein hadolygiad yn 2012 heb eu datrys o hyd. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud, nid yw hyn wedi bod yn gyson naill ai mewn rhanbarthau neu ledled Cymru. Mae angen cydweithio effeithiol ar draws gwasanaethau i fynd i'r afael â nifer o faterion parhaus sy'n effeithio ar y cymorth i bobl a chanddynt broblemau camddefnyddio sylweddau."

<DIWEDD>

Nodiadau ar y dull adolygu

Diben yr adolygiad oedd asesu a oedd pobl yn derbyn y gofal, y driniaeth a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cwestiynau allweddol canlynol:

- A yw'r driniaeth sydd ar gael yn addas i bobl?
- A oes modd i bobl gael mynediad at y driniaeth sydd ei hangen arnynt?
- A yw pobl yn derbyn gofal cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan y gwasanaethau?
- Sut mae pobl, eu teuluoedd a'r rhai hynny o'u cwmpas yn cael eu diogelu?
- Beth sy'n digwydd ar ôl i bobl orffen triniaeth?

- Pa mor dda caiff gwasanaethau eu harwain a'u rheoli?

Roedd yr adolygiad yn cynnwys arolygon cenedlaethol a grwpiau ffocws lle ymgysylltodd AGIC ac AGC â dros 850 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a staff gwasanaethau ledled Cymru. Roedd yr adolygiad hefyd yn edrych ar y saith Bwrdd Cynllunio Ardal yng Nghymru, sy'n gyfrifol am gynllunio, comisiynu a chyflawni gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Nodiadau i olygyddion

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Ceir gwybodaeth bellach ar wefan AGIC www.agic.org.uk
- Ymholiadau gan y cyfryngau: Natalie Jones 0300 062 8163